

CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADFYWIO A HAMDDEN

DYDD LLUN, 20 CHWEFROR 2017

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd: M. Gravell (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:

D. Hockenull, Rheolwr y y Cyfryngau a Marchnata
C. Jones, Physical Regeneration Programme Coordinator
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democraidd

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 19 RHAGFYR, 2016

PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnod penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 19 Rhagfyr, 2016 yn gofnod cywir.

3. RHAGLEN CEFNOGI DIGWYDDIADAU 2017-2018

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyo cyllid o £20,000.00 i lansio Cynllun Cyllido Cefnogi Digwyddiadau gyda'r nod o ddarparu cymorth ariannol i ddigwyddiadau yn y sir a allai ddangos eu bod yn bodloni meini prawf penodol, yn bennaf amcanion strategol twristiaeth, cymunedau a'r economi. Rhagwelwyd y byddai cryn dipyn o alw am yr hyn a fyddai'n gronfa weddol fach felly byddai cymorth yn cael ei roi i'r digwyddiadau hynny yn unig a oedd yn gallu dangos tystiolaeth glir o allbynnau economaidd.

PENDERFYNWYD cymeradwyo cyllid o £20,000.00 ar gyfer lansio Cynllun Cyllido Cronfa Digwyddiadau.

4. NID YW'R ADRODDIAD HWN I'W GYHOEDDI

PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

5. CRONFA MENTRAU GWLEDIG SIR GAERFYRDDIN - LEWIS RETAIL DREFACH

Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD**, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 4 uchod, na fyddid yn cyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu fusnes rhywun penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).

Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau

busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o niweidio'r ymgeiswyr ar hyn o bryd.

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried cais gan Lewis Retail Drefach Ltd am gymorth gan Gronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin tuag at y gost o ddymchwel Garej Woodlands, Drefach ac adeiladu safle adwerthu, storfa a swyddfa.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais canlynol am gymorth o'r Gronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:-

Yr Ymgeisydd/Eiddo

Y Dyfarniad

Lewis Retail Drefach Ltd./Garej Woodlands gynt

£128,000.00

AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL

DYDDIAD